| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 3. Y *'Kardomah Gang'*: Creu bwydlen |
| Disgrifiad: | Disgrifio creadigol wrth greu bwydlen |
| Blynyddoedd: | CA2 |
| Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>***Ystyr, dibenion, darllenwyr:**<br>Bl3:<br>• ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb<br>Bl4:<br>• addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darllenydd, gan ddewis geiriau'n addas<br>Bl5:<br>• ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darllenydd<br>Bl6:<br>• addasu arddull ysgrifennu i'r darllenydd a'r diben<br><br>***Strwythur a threfn:**<br>Bl3:<br>• defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu<br>Bl4:<br>• defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu<br>Bl5:<br>• defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu<br>Bl6:<br>• addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol<br><br>**Ysgrifennu'n gywir**:<br>***Iaith:**<br>Bl3/4/5/6: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu gan gynnwys Cymraeg safonol |
| Testun Dylan Thomas: | *Dim* |
| Offer angenrheidiol: | • Esiamplau o fwydlenni sy'n cynnwys disgrifiadau o'r bwyd |

| | |
|---|---|
| Dull: | • Rhowch y bwydlenni enghreifftiol i'r dysgwyr.<br>• Trafodwch gyda'r dysgwyr pa fathau o fwydydd y byddent yn hoffi eu bwyta petaent yn cwrdd â grŵp o ffrindiau enwog.<br>• Adolygwch ansoddeiriau gyda'r dysgwyr. Ydyn nhw'n gallu darganfod ansoddeiriau yn y bwydlenni?<br>• Adolygwch gyflythreniad. A all y dysgwyr ddarganfod enghreifftiau o gyflythreniad yn y bwydlenni?<br>• Gofynnwch i'r dosbarth i greu rhestr o ansoddeiriau y gellid eu defnyddio i ddisgrifio bwydydd, e.e. ffres, blasus, poeth, melys, bendigedig ayyb.<br>• Gall y dysgwyr greu eu bwydlenni eu hunain gan ddisgrifio'r bwydydd gan ddefnyddio ansoddeiriau a chyflythreniad. |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gall y dysgwyr ddefnyddio thesawrws i weld a allent wella ar eu disgrifiadau.<br>Gall y dysgwyr gyfnewid bwydlenni â phartner. Beth fyddent yn ei ddewis o fwydlen eu partner a pham? |
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Gellir rhoi templedi i'r dysgwyr llai galluog fel yr un a ddarperir.<br>KS2_Actiivty2_MenuTemplate_CYM<br><br>Gellid annog y dysgwyr mwy galluog i greu bwydlen sy'n cynnwys tri chwrs. |